OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2237 (Cy.196) (C.111)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Diwygio) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("y Mesur") yn diwygio sail statudol gwella gwasanaeth a chynllunio strategol gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cafodd darpariaethau penodol yn y Mesur eu dwyn i rym gan Orchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1) 2009 (O.S. 2009/1796 (Cy.163) (C.88)) a Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2009 (O.S. 2009/3272 (Cy.288) (C.145)) (" Gorchymyn Rhif 2").

Mae Gorchymyn Rhif 2 yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n arbed darpariaethau penodol o Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 ("Deddf 1999") er mwyn galluogi awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru i baratoi cynlluniau perfformiad gwerth gorau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-2010 a galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiadau bod yr awdurdodau hynny yn cydymffurfio â gofynion Rhan 1 o Ddeddf 1999 yn y flwyddyn ariannol 2009-2010.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud y darpariaethau arbed a geir yn erthygl 3(3)(a) a (4) yng Ngorchymyn Rhif 2 yn fwy eglur, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2237 (W.196) (C.111)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Wales) Measure 2009 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) (Amendment) Order 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

The Local Government (Wales) Measure 2009 ("the Measure") reforms the statutory basis of service improvement and strategic planning by local authorities in Wales.

Certain provisions of the Measure have been brought into force by the Local Government (Wales) Measure 2009 (Commencement No 1) Order 2009 (S.I. 2009/1796 (W.163) (C.88)) and the Local Government (Wales) Measure 2009 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) Order 2009 (S.I. 2009/3272 (W.288) (C.145)) ("the No. 2 Order").

The No. 2 Order contains savings provisions which save certain provisions of Part 1 of the Local Government Act 1999 ("the 1999 Act") so as to enable Welsh best value authorities to prepare best value performance plans for the financial year 2009-2010 and to enable the Auditor General for Wales to carry out inspections of compliance by those authorities with the requirements of Part 1 of the 1999 Act in the financial year 2009-2010.

This Order clarifies, for the avoidance of doubt, the savings provisions contained in article 3(3)(a) and (4) in the No. 2 Order.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2237 (Cy.196) (C.111)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Diwygio) 2010

*Gwnaed* *8 Medi 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 50(2)(c) a 51(4) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chymhwyso**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Diwygio) 2010 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Diwygiadau i Orchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2009**

**2**.–(1) Diwygir Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2009(**2**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3)(a) o erthygl 3 o flaen "10A" mewnosoder "6, 7, 9,".

(3) Yn lle paragraff (4) o erthygl 3 rhodder–

"(4) Y diben y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yw bod awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru yn paratoi cynlluniau perfformio gwerth gorau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-2010 a bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal arolygiadau ar y cynlluniau hynny, ac arolygiadau eraill, er mwyn penderfynu a yw awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru wedi cydymffurfio â gofynion Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2009-2010.".

(**1**) 2009 mccc 2.

(**2**) O.S. 2009/3272 (Cy. 288) (C. 145).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 2237 (W.196) (C.111)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Wales) Measure 2009 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) (Amendment) Order 2010

*Made* *8 September 2010*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by sections 50(2)(c) and 51(4) of the Local Government (Wales) Measure 2009(**1**), make the following Order:

**Title and application**

**1**. The title of this Order is the Local Government (Wales) Measure 2009 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) (Amendment) Order 2010 and it applies in relation to Wales.

**Amendments to the Local Government (Wales) Measure 2009 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) Order 2009**

**2**.–(1) The Local Government (Wales) Measure 2009 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) Order 2009(**2**) is amended as follows.

(2) In paragraph (3)(a) of article 3 before "10A" insert "6, 7, 9,".

(3) For paragraph (4) of article 3 substitute–

"(4) The purpose referred to in paragraph (2) is that of Welsh best value authorities preparing best value performance plans for the financial year 2009-2010 and the Auditor General for Wales carrying out inspections of those plans, and other inspections, to determine whether the Welsh best value authorities have complied with the requirements of Part 1 of the Local Government Act 1999 insofar as those requirements relate to the financial year 2009-2010.".

(**1**) 2009 nawm 2.

(**2**) S.I. 2009/3272 (W. 288) (C. 145).

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

8 Medi 2010

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

8 September 2010

---

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2010 Rhif 2237 (Cy.196) (C.111)

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Diwygio) 2010

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2010 No. 2237 (W.196) (C.111)

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Government (Wales) Measure 2009 (Commencement No. 2, Transitional Provisions and Savings) (Amendment) Order 2010

£4.00

W751/09/10 ON